**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Dai Davies (Cadeirydd)<br>John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans |
| **Trwy Wahoddiad:** | Christianne Glossop a David Lloyd-Thomas (Llywodraeth Cymru) |
| **Tîm Gweithredol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr) |
| **Yno hefyd:** | Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau) |
| | Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)<br>Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol) |
| | Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth) |

**<u>I groesawu Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru.</u>**

Croesawyd y Prif Swyddog Milfeddygol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Bu’r Prif Swyddog Milfeddygol yn rhoi gwybod i’r Bwrdd am:-

- Blaenoriaethau a heriau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a chael gwared ar glefydau anifeilaidd yng Nghymru i wella iechyd a lles anifeiliaid
- Diweddariad o’r Strategaeth TB mewn Gwartheg
- Diweddariad o waith y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.

## Cyfarfod o Fwrdd HCC

### 1. Croeso a Sylwadau’r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu’n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Medi 2015*

Bu’r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod rhwng HCC a Chadeiryddion Pwyllgorau Sefydlog a Changhennau Sirol Undeb Amaethwyr Cymru yn HCC ar 8 Medi 2015. Roedd y cyfarfod yn rhan o gyfres o gyfarfodydd â chynhyrchwyr i ganolbwyntio ar broblemau’r diwydiant cig oen. Roedd y cyfarfodydd yn fodd i drafod prif achosion y dirywiad ac i esbonio’r hyn roedd HCC yn ei wneud ar ran

y sector. Bu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr, ynghyd â staff HCC, mewn cyfarfod tebyg gydag aelodau NFU Cymru yn Llanrwst a Llanfair-ym-Muallt.

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS) a gynhaliwyd yn Swydd Gaer.

Bu’r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod o’r Grŵp Ardoll Cig Coch ar 22 Medi 2015 (gweler Eitem 11).

*Hydref 2015*

Bu’r Cadeirydd yn nigwyddiad rhanbarthol yr NSA, “Gwnewch Fwy o Gig Dafad” ar Ystad y Rhug, Corwen.

Bu’r Cadeirydd yng nghinio Undeb Amaethwyr Cymru / HSBC, a drefnwyd i gyd-fynd â Sioe Laeth Cymru.

Cyfarfu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr ag allforwyr a chwsmeriaid allweddol yn ystod Ffair Fasnach Ryngwladol Anuga yn Cologne.

Bu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd NFU Cymru yn Llandrindod.

Ymunwyd â’r Cadeirydd gan aelodau o NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru ar drelar teithiol HCC i hybu Cig Oen Cymru PGI yn Tesco, Caerfyrddin.

## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru).

## 3. Datganiad o Fuddiannau

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

## 4. I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Medi 2015 (HCC 651)

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Medi 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. Materion yn codi

*Llenwi swyddi Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC*

Nodwyd bod trefniadau ar y gweill i anfon llythyrau ailbenodi am dymor pellach hyd at 30 Medi 2016 at aelodau'r Bwrdd gan y Gweinidog. Hefyd, byddai Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Bwrdd ynghylch "Egwyddorion Nolan" sydd yn pennu safon ymddygiad a disgwyliadau wrth ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus. Byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn i atgoffa pawb mewn swyddi cyhoeddus am eu rhwymedigaethau.

*Rheolaeth Carcasau Gwrthrychol ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen*

Nid oedd diweddariad i'w roi.

Cynhelid cyfarfod o'r Grŵp Gwerthuso Carcasau Cig Oen yn y Ffair Aeaf ddydd Llun 30 Tachwedd 2015.

*Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Fwyd*

Cadarnhawyd y byddai Keith Smyton, Pennaeth yr Is-adran Fwyd yn dod i gyfarfod y Bwrdd ddydd Gwener 15 Ionawr 2016.

*Adolygiad o HCC*

Nid oedd diweddariad i'w roi.

Rhagwelwyd y byddai'r Dirprwy Weinidog yn gwneud cyhoeddiad yn ystod yr wythnosau nesaf ynghylch yr Adolygiad a fyddai'n dechrau yn y Flwyddyn Newydd.

*Cynllun Gweithredu Strategol ar Gyfer y Diwydiant Cig Coch yng Nghymru - Adroddiad Cynllun Gweithredu Monitro Blynyddol 2014 - 2015*

Nodwyd bod yr uchod wedi'i gymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog.

*Tynnu Llinyn Cefn Defaid / Hollti Carcasau Cig Oen*

Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gwahodd y diwydiant i lunio argymhellion i bennu torbwynt o fis Mai neu Fehefin ar gyfer unrhyw ddefaid a gafodd eu geni yn y flwyddyn flaenorol. Gallai hyn fod yn ffordd newydd o adnabod defaid a aned yn y flwyddyn flaenorol; ar hyn o bryd, mae'n seiliedig ar archwilio dannedd y defaid.

Byddai'r argymhelliad (dan arweiniad yr NFU) yn amodol ar graffu gan y Cyngor Ewropeaidd am taw'r DG oedd Aelod Wladwriaeth gyntaf yr UE i argymell system wahanol i'r system ddannedd. Roedd y cynnig yn symud yn ei flaen, ond y cynharaf y gellid mabwysiadu'r system fyddai 2017.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 652)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd nad oedd manylion adnabod proseswyr a mân-werthwyr yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r Bwrdd er mwyn diogelu Aelodau'r Bwrdd rhag unrhyw wrthdrawiadau buddiannau a allai godi.

Cytunwyd y dylid, erbyn y cyfarfod nesaf, baratoi papur gwybodaeth ynghylch toriadau carcasau a blaenoriaethau ar gyfer y gwahanol wledydd sy'n mewnforio cig.

*<u>Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 (RDP 2014 – 2020)</u>*

Nodwyd bod HCC wedi mynegi diddordeb i Raglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ynghylch datblygu menter ar ran y diwydiant cig coch yng Nghymru. Roedd disgwyl canlyniad hyn yn ystod Rhagfyr 2015.

b. *<u>Papur er gwybodaeth: Cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig 2007 – 2013 Adroddiad am y canfyddiadau – Prosiect HCC: Symud y rhwystrau rhag defnyddio cofnodion electronig er mwyn gwella perfformiad y ddiadell (HCC 653)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Gwnaed gwerthusiad annibynnol o'r prosiect, a chafwyd canlyniadau boddhaol.

I grynhoi, rhoddodd y prosiect hwn gyfle i dros 1,700 o ffermwyr defaid yng Nghymru i gymryd y cam cyntaf tuag at ddefnyddio cofnodi EID fel rhan o'u rheolaeth ddiadell ac i wella eu gallu i ddefnyddio TG. Llwyddodd i symud un o'r prif rwystrau (ariannol) a oedd yn atal ffermwyr rhag cymryd rhan a bu'n gymorth iddynt ddeall yn well sut gellir defnyddio EID i'w helpu i gofnodi gwybodaeth am reoli diadell.

Felly, roedd y prosiect rhagbrofol hwn wedi darparu llwyfan a fyddai'n sail i fentrau yn y dyfodol fel y gall y sector gymryd camau tuag at ddatblygu sgiliau a galluoedd a fydd yn cefnogi gwelliannau i effeithlonrwydd ar y fferm. Wrth wneud hyn, roedd y prosiect wedi dechrau mynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru ac yn symud tuag at fodloni'r amcanion strategol a bennwyd gan Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn y Cynllun Gweithredu Strategol i'r Diwydiant Cig Coch yng Nghymru a chefnogi Cyfarwyddeb Hwyluso'r Drefn Llywodraeth Cymru.

c. *Bwletin y Farchnad (HCC 654)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2015 (HCC 655)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion penodol i'w tanlinellu:

e. *Digwyddiadau i Ddod. gan gynnwys cynhadledd flynyddol HCC a phresenoldeb yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru HCC 656)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 12 Tachwedd 2015*

Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer yr uchod gan y Pennaeth Gweithrediadau.

Thema'r gynhadledd oedd "Ymgysylltwch! Ennill tir gyda'n gilydd – Sut i gael Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy i Gig Coch yng Nghymru".

Cynhelid cinio cyn y gynhadledd i'r Dirprwy Weinidog, aelodau'r Bwrdd, siaradwyr, Swyddogion y Llywodraeth ac Uwch Reolwyr HCC yn y Metropole, Llandrindod ar 11 Tachwedd 2015.

Anfonwyd gwahoddiadau i'r gynhadledd, a chafwyd 120 o atebion cadarnhaol hyd yma.

Roedd y rhaglen yn cynnwys anerchiad gan y Dirprwy Weinidog, yn cael ei ddilyn gan gyflwyniadau gan y Pennaeth Gweithrediadau; Richard Brown, Cyfarwyddwr Gira; Patricia Czerniak, asiant HCC's yn yr Almaen; ac Ed Garner, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Kantar Worldpanel. Hefyd, ceid sesiynau ymylol megis arddangosiad torri carcas cig oen ac anerchiadau gan Ysgolorion HCC yn 2014: Eleri Price, Carwyn James a James Powell.

*Ffair Aeaf 2015*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn y Ffair.

Byddai HCC yn cynnal derbyniad brecwast yn Hafod a Hendre am 8am ddydd Llun 30 Tachwedd 2015 yng nghwmni'r Dirprwy Weinidog. Byddai'r stondin yn y man arferol, yn Neuadd Morgannwg, a cheid llawer o weithgareddau, gan gynnwys cystadleuaeth garcas ac arddangosiadau coginio.

7. **<u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2015 ar gyfer Defnyddwyr</u>**

Cyflwynwyd yr uchod gan y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad.

8. **<u>I dderbyn diweddariad 6-misol am Dargedau Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2015 / 2016 (HCC 657)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn ystod y chwe mis cyntaf, mewn cymhariaeth â'r Cynllun Busnes 2015 / 2016.

Nodwyd bod yr holl weithgaredd yn digwydd ac nad oedd unrhyw bryderon i'w crybwyll.

9. **<u>I gytuno ar gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a'r costau adennill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2016 / 2017 (HCC 658)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Prif Weithredwr.

Cytunodd y Bwrdd er bod pum mlynedd oddi ar y cynnydd blaenorol, ar y cyfan a gyda golwg ar yr heriau economaidd sy'n wynebu'r sector, ynghyd â'r trafodaethau Mamwladoli Ardoll a chyfleoedd am gymorth ariannol o ffynonellau eraill, y dylid argymell na ddylid newid y cyfraddau Ardoll ar gyfer 2016 / 2017.

Felly, byddai'r cyfraddau Ardoll a chostau adennill a ganlyn ar gyfer 2016 / 2017 yn cael eu cyflwyno i'r Dirprwy Weinidog i'w hystyried.

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2016/2017** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi (hyd at 68kg)** | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2016/2017** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

10. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

*<u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Mehefin 2015 (HCC 659)</u>*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Mehefin 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

11. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch ar 22 Medi 2015.

Roedd angen rhagor o waith ar ddefnyddio cronfeydd data defaid Prydain (edrych ar sut gall data symud roi gwybodaeth ynghylch lle mae defaid yn byw.) Sefydlwyd Is-grŵp Technegol Byrhoedlog o gynrychiolwyr o'r Byrddau Ardoll a Swyddogion y Llywodraeth er mwyn dwyn hyn yn ei flaen.

Ar yr un pryd, roedd dogfen wybodaeth i'r Gweinidogion yn cael ei llunio.

Trefnwyd y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Ardoll Cig Coch llawn yn cael ei gynnal ar 23 Tachwedd 2015.

12. **<u>EIDCymru</u>**

*<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>*

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Bwrdd gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.-

Roedd data yn cael ei dderbyn eisoes gan nifer o farchnadoedd da byw ac anfonwyd gwybodaeth brawf gan y lladd-dai mwyaf. Roedd tîm technegol EIDCymru yn gweithio'n agos â phob un o'r marchnadoedd a lladd-dai lleiaf, ynghyd a phob un o'r canolfannau casglu yng Nghymru, er mwyn eu cynorthwyo â'r system newydd.

Roedd cyfnod rhagbrofol ar gyfer y system, sydd ar y we, ar waith a byddai llawer o ffermwyr sy'n aelodau o'r Grŵp hefyd yn rhan o'r broses hon.

Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd i ffermwyr a'r diwydiant o fis Ionawr 2016 ymlaen fel bod y ffermwyr sy'n dymuno defnyddio EIDCymru i adrodd neu gadarnhau eu symudiadau defaid yn gallu gwneud hynny.

Byddai'n orfodol ar farchnadoedd da byw, lladd-dai a chanolfannau casglu i adrodd symudiadau defaid yn electronig o 18 Ionawr 2016.

Cafodd cynllun cyfathrebu ei baratoi a byddai EIDCymru yn bresennol yn y Ffair Aeaf.

O ran staffio, cwblhawyd y recriwtio ar gyfer y Cynorthwywyr Desg Gymorth a byddai'r staff a benodwyd yn dechrau ar eu gwaith yn ystod Rhagfyr 2015.

Cytunwyd y dylid trefnu bod aelodau'r Bwrdd yn ymweld â swyddfeydd EIDCymru yn dilyn cyfarfod Ionawr 2016.

## 13. Unrhyw fater arall

*Bwrdd Masnach Organig – Cais am arian*

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau wrth y Bwrdd fod cais wedi'i dderbyn gan y Bwrdd Masnach Organig am gyfraniad ardoll gan HCC tuag at gais bwyd a diod organig generig a fyddai'n defnyddio cyllid hyrwyddol gan yr UE.

Cytunwyd y dylai'r Swyddogion Gweithredol ystyried y cais ymhellach a diweddaru'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

*Grŵp Myfyrio'r UE ar Gig Defaid*

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod Comisiwn yr UE, oherwydd yr heriau sylweddol a wynebwyd gan y sector defaid yn ddiweddar, ac ar gais y Comisiynydd Hogan, wedi ffurfio "Grŵp Myfyrio'r UE ar Gig Defaid".

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i gynrychioli Llywodraeth Cymru a'r diwydiant ar y Grŵp.

Roedd cyfarfod cyntaf y Grŵp i fod i gael ei gynnal ar 12 Tachwedd 2015, ac felly roedd y Prif Weithredwr am ymddiheuro na fyddai yng Nghynhadledd flynyddol HCC.

Rhoddid diweddariad o'r uchod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

*Aml-symudiadau Gwartheg / cosbau i gynhyrchwyr cig eidion*

Cytunwyd y dylid darparu papur ar gyfer y cyfarfod nesaf â gwybodaeth am nifer yr anifeiliaid cig eidion nad ydynt yn bodloni rhagofynion rhai mân-werthwyr ynghylch aml-symudiadau ar basportau Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 15 Ionawr 2016.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**